

Hawdd ei ddeall



Cyngor Sir Penfro

Adroddiad Arolygu



Edrychodd **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)** ar wasanaethau plant ac oedolion yng **Nghyngor Sir Penfro** ym misoedd Mawrth ac Ebrill 2022.



Gwnaethon ni hynny i ddarganfod pa mor dda maen nhw'n gwneud yn eu gwaith gwasanaethau cymdeithasol. Rydyn ni'n galw hwn yn **arolygiad gwerthuso perfformiad**.

Gwnaethon ni edrych ar ba mor dda y mae'r Cyngor yn ei wneud yn y meysydd yma:



1. Pobl - llais a rheoli

Pa mor dda maen nhw'n gwirio
anghenion gofal a chefnogaeth pobl.



2. Afal

Pa mor dda maen nhw'n gwirio
cynlluniau gofal a chefnogaeth pobl.



3. Lles

Pa mor dda maen nhw'n cadw pobl yn
ddiogel ac yn hybu lles.



4. Partneriaeth ac Integreiddio

Pa mor dda maen nhw'n cwrdd ag
anghenion gofal a chefnogaeth, a sut
mae hyn yn gwneud bywydau pobl yn
well.

Pobl

Pethau da y gwnaethon ni ddarganfod:



Roedd oedolion yn teimlo bod eu lleisiau nhw'n cael eu clywed a bod y gwasanaethau cymdeithasol yn ddefnyddiol iddyn nhw.



Roedd gan ofalwyr gyfrifoldebau ychwanegol a llai o gefnogaeth yn ystod y pandemig, ond dywedodd llawer o bobl eu bod nhw'n hapus.



Roedden nhw bellach yn gallu cael mynediad i wasanaethau fel gwasanaethau dydd a seibiant.



Mae taliadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio'n dda.



Roedd cynorthwyywyr personol sy'n gweithio gyda phobl sydd angen cefnogaeth yn barod i helpu.



Gwelon ni enghreifftiau da o eiriolaeth.
Mae eiriolaeth yn golygu helpu pobl i
ddweud eu dweud.



Gwelon ni enghreifftiau da o gyfathrebu
â phlant.
Roedd y cofnodion yn dangos geiriau'r
plentyn ei hun.



Roedd adborth positif am gefnogaeth
gan reolwyr.



Mae staff yn cael cyfarfodydd
goruchwylio rheolaidd sy'n canolbwyntio
ar ba mor dda mae pethau'n mynd.



Does dim digon o staff ond mae
camau'n cael eu cymryd i wella hyn.

Beth sydd angen ei wella:



Mae oedi wrth i bobl dderbyn y gofal a'r cymorth sydd ei angen arnyn nhw.



Mae llawer o bobl angen help a dim digon o staff i helpu nhw'n gyflym.



Mae angen i'r Cyngor wneud yn siŵr fod ymatebion ac asesiadau'n cael eu gwneud yn gyflym pan fydd gofalwyr yn gofyn am gymorth.



Mae angen i'r Cyngor ofyn beth yw dewis iaith person yn gynnar.



Dywedodd pobl y gallai gymryd amser hir i gysylltu â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol dros y ffôn.



Roedd pobl yn poeni am gysylltu mewn argyfwng ac roedd awgrymiad i gael llinell ffôn gofal cymdeithasol arbennig.



Yn y gwasanaethau plant, mae cyfarfodydd goruchwyllo ond dydyn nhw ddim yn canolbwyntio digon ar:

- Les
- Dysgu
- Datblygiad



Mae angen i gynlluniau rhieni a gofalwyr fod yn symlach ac mae angen iddyn nhw gael eu hesbonio fel eu bod nhw'n gliriach.



Doedd y cyngor ddim wedi cytuno i roi arian er mwyn gwella rhai gwasanaethau.

Atal

Pethau da y gwnaethon ni ddarganfod:



Roedd y bobl y gwnaethon ni siarad â nhw yn hapus am waith y Cyngor ar atal.



Roedd galw mawr am wasanaethau ond roedd rhai yn gallu gweithio'n gyflym ac i safon uchel.



Mae'r Cyngor wedi talu am gymorth ychwanegol i leihau rhestrau aros.



Mae rhai adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth yn rhoi esboniad clir o fywyd a chanlyniadau pobl.



Mae gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd i roi cefnogaeth i bobl yn gyflymach.



Mae'r **Tîm o Amgylch y Teulu (TAF)** a diogelu mewn addysg yn creu cysylltiadau da rhwng ysgolion a'r Cyngor er mwyn rhannu gwybodaeth.



Mae **Cynorthwyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA)** ym mhob ysgol ac mae rhai pobl eraill wedi cael hyfforddiant ynghylch trawma.



Gwelon ni ymatebion cyflym i unrhyw bryderon am blant a gwaith da yn y gwasanaethau plant.

Beth sydd angen ei wella:



Mae angen i'r Cyngor ymateb yn gyflymach i anghenion ar draws y system gofal cymdeithasol.

Roedd pobl yn anhapus gydag:



- Ymatebion araf
- Asesiadau araf
- Adolygiadau araf
- Cynllunio gofal a chymorth araf

Mae'r Cyngor yn dda wrth weithio gyda phlant yn gynnar. Nid yw hyn wedi atal mwy o anghenion cefnogaeth i blant.



Mae hyn oherwydd nifer uchel o atgyfeiriadau a phlant sydd â mwy o anghenion cefnogaeth.




Roedd llwyth gwaith staff yn uchel. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i benderfynu beth i weithio arno'n gyntaf ac i dimau rannu gwaith.



Mae angen rhoi mwy o fanylion pan fydd gweithwyr cymdeithasol yn ysgrifennu am yr hyn maen nhw'n poeni amdano. Mae hyn yn bwysig mewn achosion o gam-drin domestig.



Mae llawer o blant yn cael eu gweld ond mae angen i gynlluniau diogelwch gynnwys mwy o fanylion a chael eu gwneud yn gyflym.



Mae gwaith y Cyngor wedi cael ei effeithio gan y pandemig ac mae'n bwysig i sicrhau bod pobl yn cael y gofal iawn.

Partneriaeth ac Integreiddio

Pethau da y gwnaethon ni ddarganfod:



Mae'r Cyngor yn dda wrth weithio gydag eraill. Gwelon ni hyn pan oedd pobl yn gadael yr ysbyty ac mewn diogelu i oedolion.



Mae enghreifftiau da o gydweithio yn:

- Y tîm rhyddhau o'r ysbyty ar y cyd
- Y gwasanaeth **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA)**



Gall gweithwyr proffesiynol weithio'n dda gyda'i gilydd, gan gynllunio gofal a chefnogaeth.



Mae'r tîm Gofal Integredig yn cefnogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Mae'r tîm yn enghraifft dda o weithio ar y cyd. Mae hyn yn gwneud bywydau pobl yn well.



Cawson ni adborth da gan grwpiau eraill sy'n gweithio gyda'r cyngor.



Dywedodd Heddlu Dyfed Powys a darparwyr gwasanaethau fod y Cyngor yn dda wrth siarad â nhw.



Mae'r fforwm darparwyr yn gwella. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n dda gyda gweithwyr gofal a'u rheolwyr.



Mae gwasanaethau plant y Cyngor yn dda wrth weithio gyda sefydliadau eraill.



Mae gwybodaeth dda yn cael ei rhannu rhwng:

- Yr Heddlu
- Ysgolion
- Timau gofal cymdeithasol



Roedd nifer da o bobl mewn cyfarfodydd am blant.
Cafodd argymhellion eu cofnodi'n glir.

Beth sydd angen ei wella:




Mae'n rhaid i uwch-reolwyr o'r Cyngor a'r bwrdd iechyd weithio gyda'i gilydd er mwyn datrys unrhyw bryderon.



Mae angen i'r bwrdd iechyd a'r Cyngor gytuno ar bwy sy'n gallu cael gwasanaethau a phwy sy'n rhoi nhw.



Weithiau cafodd cymorth a gofal a oedd wedi cael ei drefnu ei gymryd i ffwrdd am nad oedd cyfathrebu da rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.



Mae hyn yn dangos nad yw gwasanaethau bob amser yn deall beth mae pobl ei angen.



Gall hyn achosi problemau rhwng gwasanaethau.



Clywon ni am broblem pan oedd rhywun yn gadael yr ysbyty. Ni allai gwasanaethau gytuno ar y cymorth gorau i'w ddarparu.

Golygodd hynny fod y person yn aros yn yr ysbyty yn hirach nag y dylen nhw fod.


Mae'r Tîmau Iechyd Meddwl Cymunedol wedi cael problemau cyfathrebu gyda staff o'r gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.



Cafodd rhai pobl 2 asesiad ac roedd eu gwybodaeth ar 2 gyfrifiadur gwahanol.



Doedd dim digon o gefnogaeth bob amser ac roedd risgiau i bobl yn uchel.



Ni chafodd pob cofnod o'r ysbyty a'r gwasanaethau iechyd ei rannu.



Dywedodd llawer o bobl wrthym ei bod hi'n bwysig i ddarparu gwasanaethau iechyd er mwyn helpu i gefnogi ac amddiffyn oedolion sydd mewn perygl.

Mae'n anodd cael cefnogaeth ar gyfer gwasanaethau arbenigol fel:



- Awtistiaeth
- Anableddau dysgu
- Iechyd meddwl



Mae tîm awtistiaeth sy'n helpu pobl i ddarganfod a ydyn nhw'n awtistig. Ond dydy'r tîm yma ddim yn cefnogi pobl ar ôl iddyn nhw gael gwybod.




Mae'n rhwystredig i weithwyr proffesiynol ac i bobl sydd ag anghenion cymhleth beidio â chael digon o gymorth arbenigol.



Mae'n bwysig iawn bod hyn yn cael ei gywiro.



Gall rhai pobl sy'n agored i niwed fod mewn perygl os nad ydyn nhw'n cael asesiadau a chefnogaeth.



Mae'r **Cod Ymarfer statudol ar ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth** yn dweud wrth y Cyngor beth mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud. Mae angen iddyn nhw weithio gyda phartneriaid i wneud yn siŵr eu bod nhw'n dilyn y rheolau hyn.



Mae hyfforddiant newydd wedi cael ei gynnal am awtistiaeth ac roedd cyfarfodydd newydd i sicrhau eu bod nhw'n gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Mae gwasanaethau pwysig ar gael ond dydyn nhw ddim yn ddigonol.

Mae'r rhain yn cynnwys:



- Synhwyrdd
- Asesiadau iaith a lleferydd
- Cefnogaeth i iechyd emosiynol a meddyliol plant

Mae angen i'r Cyngor weithio gyda phartneriaid er mwyn gwneud hyn yn well.



Mae'r **gwasanaethau lechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)** yn rhoi cyngor ond dydyn nhw ddim bob amser yn rhoi cefnogaeth.



Dywedodd y staff wrthyn ni ei fod yn anodd cael cyfarfodydd rhwng y Cyngor a **CAMHS** i wneud yn siŵr bod y cymorth cywir ar gael i blant.



Pontio yw'r enw ar y gefnogaeth sy'n cael ei rhoi pan fydd plant yn symud i wasanaethau oedolion.



Gwelon ni nad oedd y gwasanaethau pontio yn dda.

Doedd gwasanaethau i bobl ifanc sydd ag anghenion gofal iechyd parhaus ddim yn dda.

Dyma'r hyn y gwnaethon ni weld:



- Bylchau yn y gefnogaeth i bobl 17 a 18 oed
- Roedd anghenion Pobl Ifanc yn gwaethygu
- Roedd pobl yn torri'r gyfraith pan allai cefnogaeth fod wedi eu helpu i osgoi hyn.



Mae gan y rhai sy'n gadael gofal gynghorwyr personol. Roedd rhai cynghorwyr personol yn gwneud gwaith gwasanaethau oedolion.

Lles

Pethau da y gwnaethon ni ddarganfod:



Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dweud wrth y Cyngor beth y mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud.


Mae'r Cyngor yn dilyn y rheolau hyn ac yn gwella lles pobl sydd angen cefnogaeth a gofalwyr.



Mewn diogelu gwelon ni fod lleisiau pobl yn cael eu clywed.



Roedd nodiadau staff yn glir ac yn dangos eu bod yn deall y bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw.



Mae'r staff yn deall y rheolau am ddiogelu ac yn dilyn nhw.



Roedd y staff yn dda wrth ddarganfod beth mae pobl ei eisiau a sut maen nhw'n teimlo.



Dangosodd y staff eu bod nhw'n deall sut i helpu pobl i gael yr hyn maen nhw ei eisiau'n ddiogel.



Mae gan rai pobl sydd ag anghenion cymhleth fel awtistiaeth weithiwr ar eu cyfer nhw'n unig.

Gwelon ni fod pobl yn gallu cael asesiadau a gwasanaethau gan therapyddion galwedigaethol yn gyflym.



Gwelon ni fod gwasanaethau'n dda wrth gadw plant yn ddiogel.



Mae'r **cyfarfodydd ecsbloetio plant aml-asantiaeth (MACE)** yn dda wrth helpu i sicrhau bod plant yn ddiogel rhag cael eu hecsbloetio.

Lles

Beth sydd angen ei wella:



Mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau nad yw pobl mewn perygl. Mae angen i wasanaethau ddangos eu bod nhw'n meddwl ac yn cynllunio'n glir, a dangos pam eu bod nhw'n gwneud penderfyniadau.



Mae angen i'r Cyngor feddwl am:

- Risgiau i bob person
- Pobl eraill a allai fod mewn perygl hefyd oherwydd y gamdriniaeth honno



Doedd gwasanaethau oedolion ddim bob amser yn dda wrth feddwl am risgiau a chefnogaeth.



Roedd rhywun a oedd mewn perygl o gwympo wedi ysgrifennu hyn yn eu nodiadau, ond doedd dim ystyriaeth wedi cael ei rhoi i beth y gallai hyn ei olygu i'r person.



Mae angen i'r Cyngor wneud yn siŵr bod digon o wasanaethau ar gyfer diogelu oedolion.



Mae llawer o waith diogelu. Mae mwy o waith gan y Llys Gwarchod.



Mae cyfarfodydd strategaeth a chynadleddau yn bwysig wrth helpu i ddiogelu pobl.



Mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal mwy o gyfarfodydd a chynadleddau am nad oes digon ohonyn nhw'n cael eu cynnal.



Weithiau roedd pobl yn cael cymorth heb gael asesiad.



Mae'n rhaid i'r Cyngor gynnig asesiad ac mae'n rhaid iddyn nhw wneud yr asesiad os yw'r person eisiau cael un.



Mae problem fawr wrth gael mynediad i wasanaethau, ar gyfer pobl:

- Sy'n awtistig
- Sydd angen cefnogaeth arbenigol ar gyfer anableddau dysgu ac iechyd meddwl



Mae angen i'r Cyngor wneud mwy o waith gyda phobl awtistig sydd ag anabledd dysgu.

Mae'n bosib y bydd gwasanaethau cymorth gwahanol yn colli anghenion pobl awtistig.

Doedd rhai plant ddim yn cael asesiad yn ddigon cynnar.



Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud yn siŵr bod plant yn cael asesiad cyn gynted ag y mae'n ymddangos bod angen gwasanaethau gofal a chymorth arnyn nhw.



Yn ôl y gyfraith, mae angen i'r gwasanaeth amddiffyn plant gynnal ymweliadau rheolaidd. Roedd oedi gyda hyn ac roedd hyn yn golygu nad oedd rhai cynlluniau wedi cael eu diweddaru.



Ni allen ni fod yn siŵr bod lles a diogelwch yn cael digon o sylw.



Mae rhai plant mewn gofal y tu allan i Gymru.



Mae'r Cyngor yn defnyddio darparwr gofal yn Lloegr sy ddim yn gofrestredig. Mae hyn oherwydd nad oes digon o ddarparwyr gofal i rai plant sy'n gallu cynnig gofal yng Nghymru.



Mae angen i'r Cyngor gynllunio i wella eu contract gyda'r darparwr hwn yn gyflym.



Mae defnyddio gofal anghofrestredig yn broblem.

Ni all **AGC** fod yn siŵr bod y gofal a'r staff gofal yn cael eu gwirio'n iawn a'u gwirio'n briodol.



Nid yw'n dda ar gyfer lles plant i dderbyn gofal ffordd hir o'u cartref.



Roedd hi'n anodd darganfod a oedden nhw'n derbyn gofal iechyd da neu addysg dda.



Dyweddodd y bobl ifanc hyn eu bod
nhw'n hapus gyda'r bobl sy'n gweithio
gyda nhw.



Roedd yr heddlu yn dda wrth rannu
gwybodaeth pan fydd plentyn yn mynd
ar goll.



Pan fydd plant sy'n mynd ar goll yn dod
yn ôl mae angen cynnal cyfweiliadau.
Bydd hyn yn helpu i ddod o hyd i unrhyw
risgiau ac mae'n gallu cadw'r plentyn yn
fwy diogel.



Cafodd y fersiwn darllen hawdd hwn ei
greu gan

Planet Easy Read.

Rydyn ni'n defnyddio Ffotosymbolau

ISBN 978-1-80364-841-5